



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cyfranogi mewn gwaith teg ar gyfer  
iechyd, llesiant a thegwch - darlun o'r  
sefyllfa gan gynghorwyr lleol, aelodau  
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus,  
swyddogion polisi a chynrychiolydd  
Bargeinion Dinesig a Thwf**

Awdur: Cerys Preece (CP), Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Uned  
Penderfynyddion Ehangach Iechyd  
Troy Wey (TW), Swyddog Ymchwil Iechyd y Cyhoedd, Uned  
Penderfynyddion Ehangach Iechyd

**Dyddiad:** 24 Ionawr 2022

**Fersiwn** V1

**Cyhoeddiad / Dosbarthu:**

- Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd

**Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:**

Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno canfyddiadau'r gyfweiliadau lled-  
strwythuredig â chynghorwyr lleol, aelodau Byrddau Gwasanaethau  
Cyhoeddus, swyddogion polisi a chynrychiolydd Bargeinion Dinesig a  
Thwf mewn perthynas â gwaith teg, ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch.

**Cyfeirnod Cynllun Gwaith:** 1.5.1, 1.5.2 (2021/22)



## Cynnwys

<b>1</b>	<b>CYFLWYNIAD</b> .....	<b>4</b>
1.1	Cefndir.....	4
<b>2</b>	<b>METHODOLEG</b> .....	<b>4</b>
<b>3</b>	<b>Y CANFYDDIADAU</b> .....	<b>7</b>
3.1	Canfyddiad o Waith Teg.....	7
3.2	Gwerth Gwaith Teg .....	8
3.3	Ffyrdd o weithio.....	10
3.4	Cael Gafael ar Wybodaeth am Waith Teg .....	11
3.5	Cyflwyno'r Achos dros Waith Teg .....	13
<b>4</b>	<b>CASGLIADAU AC ARGYMHELLION</b> .....	<b>15</b>

# 1 Cyflwyniad

Er mwyn llywio gwaith y panel arbenigol, cynhaliwyd cyfweiliadau i gael darlun gan bartneriaid lleol a rhanbarthol sy'n gweithio ar yr agenda hon i sicrhau y byddai unrhyw adnoddau a deunyddiau a gynhrychir yn addas at y diben.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno allbwn y cyfweiliadau ac yn hidlo'r prif themâu a chanfyddiadau i lywio'r gwaith o gynhrychu adnoddau a deunyddiau sy'n ymwneud â gwaith teg yng Nghymru.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021 gyda chynghorwyr lleol, aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, swyddogion polisi a chynrychiolydd Bargeinion Dinesig a Thwf. Nodau'r cyfweiliadau oedd:

- deall mwy am ymwybyddiaeth a gwybodaeth cyfranogwyr o waith teg a'i gysylltiad ag iechyd a llesiant,
- ymchwilio i ble mae cyfranogwyr chanfod a phrosesu gwybodaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

## 2 Dull

### 2.1 Y dull gweithredu

Casglwyd darlun o'r sefyllfa o sampl bwriadus o gynghorwyr lleol, aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, swyddogion polisi a chynrychiolydd Bargeinion Dinesig a Thwf o bob rhan o Gymru gan ddefnyddio cyfweiliadau lled-strwythuredig, un-i-un a grŵp.

### 2.2 Sampl

Oherwydd cyfyngiadau amser, cafodd y cyfranogwyr eu recriwtio drwy rwydweithiau presennol o fewn yr Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach. Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o'r cyfranogwyr.

**Tabl 1: Crynodeb o Gyfweiliadau**

<b>Math o Ymgysylltu</b>	<b>Nifer a Gynhaliwyd</b> (Galwad fideo drwy Microsoft Teams)	<b>Nifer y Cyfranogwyr</b>	<b>Swyddogaethau / Rolau a Gynrychiolwyd</b>
Cyfweiliadau lled-strwythuredig	5	5 cyfranogwr	1 Cynrychiolydd Bargeinion Dinesig a Thwf (De)  4 aelod o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (3 chyngor lleol, 1 sector addysg) o 3 ardal Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Ardaloedd Trefol De Cymru)
Grŵp ffocws	1	3 chyfranogwr	3 swyddog Cyngor o 1 Cyngor Lleol (Cymoedd y De-ddwyrain)

### 2.3 Amserlen cyfweiliadau ar gyfer casglu data

Datblygwyd y canllaw cyfweld lled-strwythuredig gan dîm y prosiect (Atodiad C) ac roedd yn seiliedig ar elfennau perthnasol y fframwaith gallu, cyfle, cymhelliant – ymddygiad (capability, opportunity, motivation – behaviour neu COM-B) (Atodiad D). Roedd y canllaw cyfweld yn amlinellu'r prif themâu i'w trafod ac yn cynnwys cwestiynau penagored ac awgrymiadau a chwestiynau treiddio ar gyfer y cyfwelydd. Roedd y cyfweiliadau yn para tua 45-60 munud.

Roedd canllawiau'r cyfweiliad yn canolbwyntio ar rôl y cyfranogwr a sut y mae'n cyfrannu at waith ar yr economi, gan gyfeirio'n benodol at waith teg cyn mynd i'r afael â'u syniadau ar y berthynas rhwng gwaith teg ac iechyd. Yna symudodd y cyfweiliadau ymlaen i gael darlun o waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bargeinion Ddinesig a Thwf mewn perthynas â gwaith teg cyn canolbwyntio'n olaf ar ble roedd y cyfranogwyr yn cael gwybodaeth a pha fathau o wybodaeth oedd bwysicaf iddynt i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

Dangoswyd sleid gyda diffiniad o waith teg a gynhyrchwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfranogwyr ei darllen ar ôl Cwestiwn 3 er mwyn helpu i hwyluso'r drafodaeth (Atodiad E).

## 2.4 Recriwtio a chasglu data

Anfonwyd gwahoddiad e-bost a thaflen wybodaeth am y prosiect ymlaen llaw at ddarpar gyfranogwyr (mae'r gwahoddiad a thaflen wybodaeth i'w gweld yn Atodiadau A a B). Cysylltwyd â chyfranogwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft drwy gydlynwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Cyfarwyddwyr lleol Iechyd y Cyhoedd; cysylltiadau tîm y prosiect a thrwy wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael ar wefannau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/awdurdodau lleol.

Yna anfonwyd gwahoddiad ar gyfer galwad Microsoft Teams drwy e-bost at ddarpar gyfranogwyr i gadarnhau'r dyddiad a'r amser. Roedd y ffurflenni caniatâd yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gan yr holl gyfranogwyr cyn i'r cyfweiliadau gael eu cwblhau. Roedd y ffurflen ganiatâd yn cyflwyno'r pwnc ac yn rhoi'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfranogwyr i wneud dewis gwybodus ynglŷn â'u cyfranogiad.

Cafodd pob cyfweiliad ei recordio a'i drawsgrifio gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Teams. Cynhaliwyd cyfweiliadau rhwng 26 Hydref a 8 Rhagfyr 2021. Y bwriad oedd cynnal tua 10-15 o gyfweiliadau gyda chyfranogwyr o gynifer o wahanol awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â phosibl. Fodd bynnag, oherwydd nifer cyfyngedig yr ymatebion yn dilyn recriwtio, arweiniodd hyn at gyfanswm o bum cyfweiliad ac un grŵp ffocws yn cynnwys tri chyfranogwr.

## 2.5 Dadansoddi data

Cafodd y gwaith dadansoddiad data ei arwain gan fethodoleg ymchwil ansoddol fel yr amlinellir gan Braun a Clarke (2006)<sup>1</sup> ar Ddadansoddi Thematig a dilyn y camau a amlinellir isod:

- Dadansoddwyr i ymgyswrtu â'r set ddata gyfan
- Cynhyrchu codau cychwynnol
- Chwilio am themâu
- Adolygu themâu
- Diffinio ac enwi themâu
- Cynhyrchu'r adroddiad

Yn unol â'r camau uchod, darllenodd y cyfweilydd (TW) a'r cyd-adolygydd (CP) drwy'r trawsgrifiadau a chynhyrchu codau yn unigol yn Microsoft Word cyn i greu 'mapiau meddwl' ar wahân gan ddefnyddio Bwrdd Miro a oedd yn dangos syniadau thema ac is-thema cychwynnol. Yna trafodwyd ac adolygwyd dadansoddiadau a themâu ar y cyd ac roedd y cydweithio hwn o ddadansoddi yn llywio'r gwaith o ddiffinio ac enwi themâu terfynol.

---

<sup>1</sup> Virginia Braun a Victoria Clarke (2006) Using thematic analysis in psychology, *Qualitative Research in Psychology*, 3:2, 77-101

### 3 Canlyniadau

#### Nodwyd pedair thema allweddol drwy'r dadansoddiad:

- Canfyddiad o Waith Teg
- Gwerth Gwaith Teg
- Ffyrdd o weithio
- Cyflwyno'r Achos dros Waith Teg

#### 3.1 Canfyddiad o Waith Teg

Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir wrth y term gwaith teg ymysg mwyafrif y rhai a gyfwelwyd.

*Cyfweliad 2: "Dyw e ddim yn derm dwi i wedi'i glywed o'r blaen yn y [...] cyd-destun dw i'n gweithio ynddo."*

Dywedodd tri o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi gwneud gwaith darllen cefndirol cyn y cyfweliad i ymgyswngwrddo â'r term.

*Cyfweliad 5: "a bod yn onest, roeddwn i'n meddwl o, gwaith teg. Beth yw hwnnw felly? Felly fe wnes i ychydig o waith darllen."*

Ychydig iawn o ymwybyddiaeth a oedd gan y rhai a gyfwelwyd ac nid oeddent yn gallu sôn am unrhyw bolisiâu neu adroddiadau penodol a oedd yn trafod gwaith teg.

*Cyfweliad 3: "O dop fy mhen, alla i ddim meddwl am unrhyw ddogfennau polisi penodol dw i wedi'u darllen sydd wedi fy arwain yn benodol i feddwl iawn, mae hwn yn ymwneud â gwaith teg a [...] mae hyn wedi dylanwadu arnaf fi neu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus."*

Er eu bod yn anghyfarwydd â'r hyn a olygir wrth waith teg i ddechrau, ar ôl dangos diffiniad o waith teg yn ystod y cyfweliad, roedd gan bob un o'r rhai a gyfwelwyd ddealltwriaeth gyffredinol dda o'r cysyniad, gan dybio eu bod eisoes yn ymdrechu i gyflawni rhai o'r agweddau ar waith teg yn eu hardal neu ranbarth.

*Grŵp ffocws 1: "Na, yn amlwg, ar ôl i chi gael trafodaeth ac rydych chi'n sylweddoli popeth rydyn ni'n ei wneud. Wrth gwrs, rydyn ni'n edrych ar waith, ond o ran gwaith teg fel menter, yn sicr ie, dyw e ddim yn rhywbeth dw i'n gyfarwydd ag ef, ar ôl siarad ag ychydig o gydweithwyr hefyd cyn heddiw. Mae pobl, ar ôl i chi fynd o dan groen yr hyn rydych chi'n sôn amdano, maen nhw fel, o ie, wrth gwrs. Felly ie, beth rydyn ni'n ei wneud am gontractau teg... Ond pan rydych chi'n siarad am waith teg fel term ynddo'i hun, welais i fod tipyn o ddiffyg ymwybyddiaeth efallai."*

Er nad oeddent o reidrwydd yn cyfeirio at waith teg, roedd pawb a gyfwelwyd yn ymwybodol iawn o'r berthynas gydgysylltiedig rhwng cyflogaeth yn gyffredinol a chanlyniadau iechyd cadarnhaol a'i effaith ar gynhyrchiant o fewn yr economi/busnesau.

*Cyfweliad 2: "Rydyn ni'n gwybod bod effaith hirdymor diweithdra ar bobl yn niweidiol iawn i'w llesiant corfforol a meddyliol."*

*Cyfweliad 3: "Os oes gen i weithlu hapus, yna mae'r sefydliad yn fwy tebygol o fod yn hapus, ac felly rydyn ni'n debygol o fod yn fwy cynhyrchiol ac rydyn ni'n debygol o fod yn fwy llwyddiannus. Os yw pobl yn hapus yn y gwaith. Felly am y rheswm hwnnw [...] mae'n debyg mai dyma'r peth cyntaf sy'n fy nharo i."*

Tynnodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd sylw hefyd at y ffaith bod cofnod da o'r berthynas hon ac nad rhywbeth newydd yw pwysigrwydd cyflogaeth ac iechyd.

*Cyfweliad 2: "Wel ym [...] mae'r cysylltiad rhwng cyflogadwyedd a llesiant i'w weld mewn cymaint o adroddiadau gwahanol. Gallwch fynd yn ôl i [...] adroddiadau a gafodd eu hysgrifennu yn ôl yn yr wythdegau a'r nawdegau cynnar. Lle roedd y ddau beth hyn wedi'u cysylltu. Dyw hi ddim yn sioc nac yn syndod bod y ddau'n gydgysylltiedig."*

## 3.2 Gwerth Gwaith Teg

Yn y cyfweliadau drwyddynt draw, daeth thema gref i'r amlwg ynghylch gwerth gwaith teg a'i effeithiau cadarnhaol ar unigolion a chymdeithas ehangach.

Roedd pawb a gyfwelwyd yn pwysleisio'r manteision a ddaw yn sgil cyflogaeth a chyfrannu at gymdeithas o ran teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a rhoi pwrpas i unigolion, rhoi lle i bobl a'u helpu i ddeall blaen mae eu lle.

*Cyfweliad 1: "mae cyflog yn ffactor pwysig, ond mae'n gymaint mwy na hynny, mae'n ymwneud â phwrpas, a phobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi rwy'n meddwl, a'u gwaith, sy'n llawer pwysicach."*

*Cyfweliad 1: "mae'n teimlo fel eich bod chi'n gwybod beht yw eich cyfraniad a lle rydych chi'n ffitio, fel eich bod chi'n deall ble rydych chi o ran y darlun ehangach, nid dim ond cog mewn olwyn yn rhywle."*

*Cyfweliad 2: "A llesiant meddwl [...] i wneud swydd oedd yn gwneud rhyw fath o gyfraniad i gymdeithas. Felly, beth bynnag yw'r rôl, p'un a yw'n wirfoddoli, p'un a yw'n waith cyflogedig, mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â gallu cyfrannu, ac mae'n debyg y byddech yn cael rhywbeth o hynny. Felly mae hynny'n gwneud i rywun deimlo'n dda, gymaint ag y mae'n ei wneud â chyflog"*



Dywedodd pawb a gyfwelwyd fod gwaith teg yn fwy na dim ond gwobr ariannol neu gyflog teg i'r unigolyn.

*Cyfweliad 1: "Fel arfer pan fyddwch chi'n cymryd rhan yn y sgysiau hyn, mae rhywun yn troi'r sgwrs yn syth at y cyflog byw go iawn. Ie, mae'n ymwneud â llawer mwy na hynny, mae'n ymwneud â galwedigaeth, a'r hyblygrwydd sy'n cael ei roi i bobl."*

*Cyfweliad 5: "I mi, nid cael cyflog teg yn unig ydyw, mae'n ymwneud â'r math ehangach o gyfle a [...] llesiant sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth honno. Felly mewn gwirionedd rydych chi'n teimlo'n hyderus eich bod yn cael eich trin yn deg gan eich cyflogwr, bod gennych lais"*

*Cyfweliad 4: "Oherwydd [...] nid y cyflog yn unig yw e, ife? Yn aml mae'n ymwneud â'r amodau hefyd. Felly sut mae gwneud hynny'n well i bawb?"*

Roedd rhai o'r bobl a gyfwelwyd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith hyblyg, llais gweithwyr, mynediad, cynwysoldeb, cyfleoedd a sicrwydd mewn cyflogaeth i unigolion.

*Cyfweliad 3: "mynediad i waith fel eich bod yn gwybod ein bod ni'n gynhwysol ac yn darparu'r cyfle hwinnw i'r gymuned ehangach ymgysylltu â ni o ran cyflogaeth ... A'r ail beth wedyn, [...] rwy'n meddwl am amserlenni gweithio hyblyg..."*

Yn ogystal â'r ystyriaeth o'r unigolyn, nododd y rhai a gyfwelwyd hefyd bwysigrwydd gwaith teg i'r gymdeithas ehangach. Mae deall lle rhywun yn arwain at lawer o sgil-ffeithiau cadarnhaol, gan greu ymdeimlad da a meddwl cadarnhaol sydd yn ei dro yn ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau eraill ac yn gwella cynhyrchiant.

*Cyfweliad 2: "Mae'n atal pobl rhag hawlio budd-dal, sydd â budd ariannol, nid yn unig yn economaidd, ond y ddibyniaeth honno ar fudd-daliadau, sy'n hirdymor. Mae hefyd yn cael yr effaith honno ar iechyd meddwl a llesiant meddwl pobl a'u cyfraniad at gymdeithas. A phan rydych chi'n cyfrannu at gymdeithas, os ydych chi'n sôn am [...] agenda werdd er enghraifft. Os yw pobl yn cyfrannu ato, maen nhw'n llai tebygol o beidio â bod eisiau gwneud y pethau mwy cadarnhaol, a gallai hynny fod mor syml ag ailgylchui."*

O ystyried ei fanteision o ran iechyd a llesiant, roedd rhai o'r bobl a gyfwelwyd o'r farn nad yw gwaith teg yn ddigon uchel ar yr agenda, a gall y ffordd y caiff arian ei fuddsoddi gael effaith uniongyrchol ar hynny.

*Cyfweliad 1: "A dw i'n meddwl mai un o'r pethau sy'n creu rhwystredigaeth i mi weithiau yw'r ddadl hon ynglŷn â sut rydyn ni'n buddsoddi ein harian. Dyw hi ddim yn ymddangos fel pe bai'n ddigon uchel ar yr agenda, a dw i'n credu, i mi, y gallai hynny wneud cyfraniad enfawr at weithdrefnau gwaith da a theg a buddsoddi mewn iechyd a llesiant."*

### 3.3 Ffyrdd o weithio

Soniodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd am nifer o faterion a heriau cyffredinol eraill mewn perthynas â gwaith teg, y cyd-destun presennol a'u ffyrdd o weithio'n lleol ac yn rhanbarthol. Er enghraifft, soniodd y rhai a gyfwelwyd am lu o ddylanwadau ynghylch gwaith teg, fel Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid/partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau cymorth cyflogaeth eu hunain. Fodd bynnag, roedd yr holl gyfranwyr yn cytuno mai Llywodraeth Cymru yw'r mwyaf dylanwadol o ran pennu'r cyfeiriad ar gyfer partneriaid lleol a rhanbarthol.

*Cyfweliad 2: "Ie, wel, Llywodraeth Cymru yw'r mwyaf yn amlwg, ac mae hynny'n ymwneud â rhyw fath o agwedd o'r brig i'r bôn yn tydi? Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ein bod wedi nodi'r holl faterion hyn. Rydyn ni am i chi ganolbwyntio eich adnoddau ar hynny."*

Trafododd pawb a gyfwelwyd a oedd yn cynrychioli Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nifer o heriau o ran ymgorffori'r cysyniad gwaith teg yn eu cynlluniau. Eglurodd dau o'r rhai a gyfwelwyd fod diffyg cysylltiad rhwng yr hyn a ddisgwylir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a realiti'r hyn y gallant ei wneud.

*Cyfweliad 5: "I fi [...] mae'n debyg bod yna ychydig o ddatgysylltiad rhwng syniad Llywodraeth Cymru o'r hyn y dylai ac y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud a realiti'r grŵp hwnnw o bobl yn dod at ei gilydd."*

Ymddengys fod hyn yn deillio o broblemau staffio/adnoddau a chyllid annigonol, nad oedd gan rai o'r bobl a gyfwelwyd fawr o wybodaeth amdanynt na rheolaeth drostynt.

Her arall a welwyd gan ddau o'r rhai a gyfwelwyd oedd cydweithio a chysylltu gwahanol agendâu/blaenoriaethau gwahanol bartneriaid byrddau gwasanaethau cyhoeddus sydd â gormod i'w wneud.

*Cyfweliad 5: "Rwy'n credu weithiau hefyd mai'r hyn sy'n her fawr yw y bydd partneriaid yn dweud bod gormod i'w wneud. Allwn ni ddim gwneud y cyfan. Felly, er enghraifft, nawr, maen nhw'n dweud, wrth i ni wneud yr asesiad llesiant presennol, bod angen i ni ddewis ychydig o bethau a chanolbwyntio ar y rheini. Felly mae gennych chi'r math o agenda enfawr hon y gallai ac y dylai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu arni. Ond mae'n debyg mai'r realiti yw i lawer ohonyn nhw. Dydyn nhw ddim yn meddwl llawer am y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus heblaw rhwng cyfarfodydd."*

Tynnodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd sylw hefyd at yr heriau cyffredinol, y goblygiadau o ran iechyd, yr ymyriadau o ran cynnydd a'r addasiadau sydd eu hangen oherwydd Covid-19 a'r angen i wneud pethau'n wahanol.

*Cyfweliad 1: "Felly mae'r pethau sydd wedi bod yn ein lladd yn ystod COVID ac yn parhau i wneud hynny a dw i ddim yn golygu'n llythrennol o safbwynt iechyd, rwy'n golygu o ran y wasgfa economaidd. Sut rydyn ni'n meddwl yn wahanol am sut rydyn ni'n datrys y problemau hynny ac yn gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol yn hytrach na dim ond disgwyl senario 'busnes fel arfer'?"*

Gwelodd rhai fod Covid-19 wedi amlygu a gwaethygu annhegwch a'i fod yn gyfle i wneud rhywbeth yn wahanol.

*Cyfweliad 4: "Unwaith eto, mae'n ymwneud â beth mae COVID yn ei ddangos, yn dyw e? Yr anghydraddoldebau iechyd enfawr sydd gennym. Ac mae hynny wedi cynyddu lefelau tlodi hefyd. Ond mae hefyd, ym, yn rhywbeth rydych chi'n gwybod sydd angen i ni edrych arno'n gyffredinol."*

Trafodwyd materion pellach mewn perthynas â throi polisi'n gamau gweithredu, gyda rhai o'r bobl a gyfwelwyd yn nodi heriau sy'n gysylltiedig â'r economi a blaenoriaethau polisi sy'n newid yn gyson.

*Cyfweliad 2: "Bron bod yn rhaid i chi gael y trosolwg strategol hwn o rywbeth sydd [...] alla'i ond ei ddisgrifio fel tywod sy'n symud, achos dydych chi byth yn cyrraedd y nod ac mae pethau'n symud ychydig yn barhaus."*

Tynnodd rhai sylw at y ffaith mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw'r agenda werdd/newid yn yr hinsawdd ond sut i gydbwysu hynny ag adferiad economaidd a chyflogaeth.

*Cyfweliad 5: Mae'n debyg [...] ar hyn o bryd mai'r ffordd y mae'r sgwrs wedi bod yn mynd o fewn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw ffocws ar newid yn yr hinsawdd a fyddai'n cysylltu eto â'r math hwnnw o adferiad gwyrdd a'r math hwnnw o feddwl am ein heconomi leol a [...] dyna sut mae hynny'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Ond wedyn hefyd meddwl am yr agweddau anghydraddoldeb a sut rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth? Mae'n debyg y bydd pobl yn datblygu rhai o'r atebion hynny a chredaf y bydd yn rhaid i gyflogaeth fod yn rhan o hynny, ond ein partneriaid fydd yn wynebu'r her. Rwy'n meddwl o ran yr hyn y byddan nhw'n ei gyfrannu at hynny hefyd. Felly dwi'n meddwl [...] bydd 'na sgysiau eithaf diddorol."*

### 3.4 Cael Gafael ar Wybodaeth am Waith Teg

O ran sut y mae cyfranogwyr yn cael gafael ar wybodaeth neu ddata mewn perthynas â gwaith teg, soniwyd am amrywiaeth fawr o ffynonellau gan gynnwys: Gwefan Llywodraeth Cymru, ystadegau'r farchnad lafur, ymchwil a gynhyrchir gan sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asesiadau/Cynlluniau Llesiant, undebau llafur, arferion gwaith y sector preifat, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, cyfarfodydd rhwydweithio a chydgyssylltu.

Dywedodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd hefyd eu bod yn cael gwybodaeth gan dîm data yn eu sefydliad.

*Cyfweliad 5: "Byddai [X] yn fy nhîm yn edrych yn fwy ar ochr data pethau a gweld beth sy'n codi o hynny".*

Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod swyddogion polisi yn chwarae rhan ddylanwadol fel ffynonellau gwybodaeth, gan reoli i raddau pa adroddiadau a gaiff eu bwydo i aelodau sefydliadau.

*Cyfweliad 3: "Byddwn i'n dweud mae'n debyg o ran y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai [X] sy'n brif swyddog polisi yn gwneud hynny [...], ond does dim rhaid i mi fynd i chwilio am bethau gan ei bod hi'n anfon at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn dweud, [...] byddai'n wych darllen hyn cyn wythnos nesaf felly [...]. Dw i'n [...] ei ddarllen ac yn ceisio ei ddeall cystal ag y gallaf ac yna, gobeithio yn ceisio cofio cymaint ohono ag y gallaf ac yna defnyddio hynny."*

Mynegodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd hefyd fod gormod o ddogfennau, adroddiadau, fersiynau a materion a all arwain at orlethu pobl â gwybodaeth. O ganlyniad, gall fod yn anodd amsugno gwybodaeth a chanolbwyntio arni a'i blaenoriaethu.

*Cyfweliad 2: "Rydych chi'n edrych ym mhobman ar bopeth [...] ac weithiau mae cymaint o bethau fel nad ydych chi bob amser yn gallu dal i ganolbwyntio arnyn nhw ac maen nhw [...] yn datblygu drwy'r amser. Roeddwn i'n gwneud rhywfaint o waith gydag ysgol yn ddiweddar ac roedden nhw'n dyfynnu'r canllawiau gwrth-fwlio hyn yn gyson ac yna ar y diwedd roeddwn wedi gorfod mynd â hi i'r naill ochr a dweud wrth ei bod hi'n dyfynnu o fersiwn 2018. Mae 'na fersiwn 2020 ar gael nawr, ond mae'n cael ei alw'n hyn, a [...] dyna lle mae pethau'n datblygu'n eithaf cyflym. Maen nhw'n newid ac mae cymaint o agendâu sy'n dylanwadu ar bethau."*

Mae diffyg cyfrifoldeb hefyd o ran pwy ddylai ddarllen adroddiadau mewn gwirionedd. Dywedodd un cyfwelai mai'r bobl y mae angen iddyn nhw ddarllen adroddiadau fwyaf, hefyd yw'r rhai sy'n rhy brysur. Felly, roedd y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod angen symleiddio a chrynhoi oherwydd maint y wybodaeth a hyd yr adroddiadau.

*Cyfweliad 5: "Mae cymaint o wybodaeth a thystiolaeth dda yn cael eu cynhyrchu, ond mae'r bobl rydyn ni eisïau iddyn nhw eu darllen yn aml yn rhy brysur i wneud hynny a sut rydyn ni'n ei wneud yn hylaw iddyn nhw. Neu'n ddigon diddorol fel eu bod nhw eisïau darllen mwy ar ôl edrych ar ran fach. Wel, yr enghraifft glasurol oedd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y llynedd, roedd e'n gannoedd ar gannoedd o dudalennau."*

Mewn perthynas â gorlethu pobl â gwybodaeth, roedd un o'r rhai a gyfwelwyd yn anghytuno â'r diffyg cysondeb o ran brandio o fewn

gwasanaethau cyflogaeth ledled Cymru gan ddweud bod hyn wedi achosi dryswch. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd y gallai gwaith teg fod wedi cael ei alw'n rhywbeth gwahanol o'r blaen.

*Cyfweliad 4: Ie, oherwydd dw i ddim yn meddwl y byddai wedi cael ei alw'n Waith Teg o'r blaen. Fyddai e ddim wedi cael ei eirio [...] yn y ffordd honno"*

### 3.5 Cyflwyno'r Achos dros Waith Teg

Er mwyn helpu i oresgyn yr heriau a chynyddu ymwybyddiaeth, cyfranogiad ac argaeledd gwaith teg, cododd y syniad o ddatblygu diwylliant a rhoi ffrâm i waith teg o'r cyfweliadau.

Oherwydd bod y berthynas rhwng gwaith teg ac iechyd da eisoes wedi'i chofnodi mor dda, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd nad oes angen i waith teg fod yn faes polisi hollol newydd ac nid oes angen "ailddyfeisio'r olwyn".

*Cyfweliad 4: "Rydych chi'n gwybod beth sydd angen i chi ei gofio mae'n debyg achos mae polisiâu wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ar lawer o'r meysydd hyn, ond beth rydych chi'n ei wneud. Rydych chi'n addasu'r rheini, on'd ydych chi? I adlewyrchu'r Agenda Gwaith Teg a dw i'n credu ei bod yn ymwneud ag aralleirio llawer o'r hyn rydyn ni'n ei wneud a llawer o'r amser dyw e ddim i'w wneud ag ailddyfeisio olwyn newydd nac unrhyw beth felly... Yn hytrach, mae'n ymwneud â theilwra a datblygu'r polisiâu sydd gennym i gyd-fynd â'r hyn rydyn ni ei eisiau. Hynny yw, yr elfen Gwaith Teg."*

Yn hytrach, mae angen diwygio polisiâu presennol a chydgyssylltu, atodi ac ymgorffori'r agenda gwaith teg o fewn polisiâu/newidiadau economaidd eraill er mwyn newid meddylfryd yn lleol ac yn rhanbarthol. Er enghraifft, mae Covid-19 eisoes wedi annog mwy o gyflogwyr i fod yn fwy ystyriol o hyblygrwydd a llesiant staff.

*Cyfweliad 5: "Dw i'n credu bod yn rhaid ei blethu gyda blaenoriaethau eraill, felly ei blethu i mewn tebyg i'r hyn roeddech chi'n ei ddweud am adferiad ar ôl COVID, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd"*

*Cyfweliad 5: "Ac felly dw i'n meddwl bod [...] angen edrych arno fel rhan o [...] lawer o bethau eraill yn hytrach na rhywbeth ychwanegoll. Gall fod yn rhan o'r ateb i bethau eraill rydyn ni eisoes yn mynd i'r afael â nhw."*

*Cyfweliad 4: "Ac mae'n debyg ei fod yn rhan o strwythuro a chynllunio, ac rydyn ni yn y broses o ddiweddarau ein hamcanion llesiant, a fydd yn amlwg yn cwmpasu'r math yma o bethau, yn enwedig gwaith annheg, oherwydd mae'n gonglfaen, yn tydi? I ddeall yr anghydraddoldebau iechyd sy'n ein hwynebu ni? Wel, y mae llawer o bobl yn eu hwynebu, felly dw i'n credu bod llawer o bethau rydyn ni'n eu deall. Bod yn gatalydd ar gyfer hynny. Felly yn y meddylfryd o ailysgrifennu'r polisiâu hynny, byddwch chi'n gwybod y bydd hyn yn*

*cael lle blaenllaw. Os ydyn nhw eisoes yn bodoli yn y cynllun presennol."*

Roedd rhai o'r bobl a gyfwelwyd yn dadlau bod angen newid meddylfryd, meddwl mewn ffyrdd gwahanol a chreu diwylliant o waith teg er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn rhywbeth mwy na dim ond mater economaidd arall.

*Cyfweliad 1: "Ie, dw i'n credu ein bod wedi fframio'r her yn wahanol os ydyn ni am i bobl ymgysylltu, fel arall mae'n mynd i deimlo fel [...] un peth arall ar restr hir o faterion cydymffurfio. Ie, byddai'n ymwneud â chydymffurfio ac mae angen iddo ymwneud â diwylliant."*

*Cyfweliad 1: "Dw i'n credu mai'r agweddau pwysicaf ar waith teg i mi yw'r pethau'n ymwneud â meddylfryd a ffyrdd o feddwl am y diwylliannau rydyn ni am eu creu yn ein sefydliadau"*

Yn ogystal â hyn, mynegwyd bod yn rhaid i'r agenda gwaith teg osgoi troi'n ymarfer ticio bocsys/cyrraedd targedu a rhestr hir o delerau ac amodau.

*Cyfweliad 1: "Dw i'n credu y gall ddod yn ymarfer ticio bocsys. Ie [...] dw i'n credu mai'r her yw sut rydych chi'n fframio'r cwestiwn ar y dechrau, mewn ffordd sy'n cyfrannu at yr holl agendâu hyn [...] ac mae angen i ni wneud gwaith ymchwil a datblygu, mae angen i ni weithio gyda sectorau eraill o'r disgyblaethau i ddod o hyd i'r ffordd orau ac mae llawer ohono rwy'n credu yn mynd i fod drwy weithredu dinesig, a thrwy gymunedau a'r syniadau gwych sydd allan yna a sut rydym yn manteisio ar hynny. Dwi ddim yn meddwl mai'r llwybr traddodiadol ydy o bellach, dwi'n meddwl bod yn rhaid i ni feddwl yn wahanol am sut rydyn ni'n fframio'r cwestiwn. Os ydyn ni eisiau ateb gwahanol..."*

Roedd yn amlwg iawn bod yr holl gyfranogwyr yn cytuno y dylai'r defnydd o astudiaethau achos, straeon am lwyddiannau ac enghreifftiau o deithiau personol chwarae rhan allweddol wrth helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno'r achos dros waith teg.

*Grŵp ffocws 1: Ond dw i'n credu mai pan siaradodd [X] am astudiaethau achos, ie, yn hollol, roedd e'n bwerus iawn. A hefyd mae cydbwysedd ynghylch astudiaethau achos unigol yn wych oherwydd eu bod yn dangos stori unigolyn ac efallai pethau a sut maen nhw wedi effeithio ar eu bywyd."*

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith bod diffyg darlun ymarferol o'r sefyllfa neu wybodaeth ansoddol o'r math hwn ar hyn o bryd sy'n dangos gwerth gwaith teg. Yn ogystal, daeth yn amlwg ei bod yn bwysig osgoi adroddiadau hir, cymhleth ac amleiriog. Yn hytrach, dylai dogfennau fod yn gyffrous a chyda haenau i'w codi er mwyn archwilio y tu ôl iddynt, gan gynnwys delweddau lle y bo'n bosibl heb golli pwysigrwydd drwy symleiddio.

*Cyfweliad 5: "Data ar [...] lefelau cyflogaeth yn hytrach na gwybodaeth ansoddol am a yw pobl yn teimlo eu bod yn cael profiad da ai peidio ar*

*hyn o bryd o ran eu cyflogaeth [...] Byddwn i'n dweud ei bod yn debyg nad oes gennym lawer iawn o wybodaeth am waith teg. Rydyn ni fwy na thebyg wedi edrych ar gyflogaeth yn hytrach na phrofiad cadarnhaol o gyflogaeth"*

*Cyfweliad 5: "Gyda rhai diagramau, lle mae popeth ychydig yn gyffrous ac yna bron lle y gallwch chi ymchwilio y tu ôl i hynny am ryw faint o'r wybodaeth neu ryw beth ar ffurf haenau. "*

Yn ogystal â hyn, awgrymodd y cyfranogwyr y dylai adroddiadau fod yn gyson a chynnwys naratif cydlynol, gan ddangos yn glir effaith gwaith teg a theimlad o werthfawrogiad ar iechyd a llesiant. Yn olaf, mae angen codi mwy o ymwybyddiaeth o'r agenda gwaith teg, gan ganolbwyntio ar y ffaith ei bod yn ymwneud â mwy na chyflog teg yn unig.

*Grŵp ffocws 1: "Dim ond gwybodaeth gyffredinol am waith teg a beth [...] mae wir yn ei olygu a mwy o godi ymwybyddiaeth o hynny oherwydd [...] Roedd gen i syniad o'r hyn yr oedd yn ei olygu ac fe wnes i ychydig o ymchwil bryd hynny ond dw i'n credu pe bai mwy o waith hyrwyddo neu godi ymwybyddiaeth yn digwydd yn gyffredinol gyda chyflogwyr a sefydliadau, dw i'n credu y gallai hynny fynd ymhell."*

## 4 Casgliadau ac argymhellion

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn gyfle i gasglu barn asiantaethau lleol a rhanbarthol sy'n ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Bargeinion Dinesig a Thwf.

Mae canfyddiadau'r gwaith hwn yn awgrymu mai prin oedd yr ymwybyddiaeth o waith teg yn lleol ac yn rhanbarthol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn anghyfarwydd â'r cysyniad ond ar ôl dangos y diffiniad roeddent yn teimlo'n gryf ac yn bendant eu bod yn credu yn ei werth a'i bwysigrwydd.

Mae'r darluniau a gafwyd yn awgrymu bod y cyfranogwyr yn teimlo gan waith teg werth pwysig i'r unigolyn ac i gymdeithas. Roeddent yn deall bod gwaith teg yn fwy na chyflog teg yn unig gan gyfeirio at nifer o nodweddion gwaith teg. Roedd yn amlwg eu bod yn deall y cysylltiad rhwng gwaith ac iechyd, ond nid o reidrwydd pwysigrwydd gwaith teg a'i effaith o ran dylanwadu ar degwch iechyd.

Mae'r darluniau a gafwyd yn dangos bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu heriau o ran pennu blaenoriaethau, gan orfod ystyried anghenion nifer o bartneriaid a chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Y ffordd o gael gafael ar wybodaeth ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw drwy swyddogion polisi, neu dimau data yn yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel amgylchedd trwm o ran gwybodaeth neu ddata. Roeddent yn teimlo bod

angen i wybodaeth fod yn glir, yn hawdd ei hamgyffred ac roeddent yn gweld gwerth yn y defnydd o astudiaethau achos yn arbennig.

Teimlai'r holl gyfranogwyr ei bod yn bwysig cyflwyno'r achos dros waith teg ac mai dyma'r amser i newid y diwylliant neu newid meddylfryd mewn perthynas â'r agenda, gan sicrhau nad yw'n dod yn ymarfer arall o roi tic yn y bocs.

Mae nifer o themâu ac argymhellion allweddol wedi codi o'r gwaith i'r Panel Arbenigol eu hystyried:

- Ystyried materion yn ymwneud â chysondeb iaith a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir wrth waith teg
- Mwy o bresenoldeb dogfennau dylanwadol wedi'u harwain neu eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru efallai er mwyn rhoi mwy o sylw i'r agenda gwaith teg
- Y ffordd orau o ymdrechu i newid meddylfryd, neu ymgorffori gwaith teg mewn diwylliant cyflogaeth yng Nghymru
- Defnyddio astudiaethau achos neu ffyrdd eraill (e.e. ffeithluniau) i gyflwyno gwybodaeth mewn modd hygyrch, cryno a llawn gwybodaeth.



## Atodiad A – Llythyr gwahoddiad

Annwyl xx

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus xx.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn chwilio am gyfranogwyr sydd â phrofiad o ddatblygu a chefnogi'r agenda gwaith teg i gymryd rhan mewn cyfweiliad byr ar-lein yn ystod yr wythnosau nesaf.

Byddem yn croesawu eich barn gan y gallech fod wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio Cynlluniau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu efallai fod gennych brofiad o weithio gyda'r Bargeinion Dinesig a Twf neu fentrau eraill sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys mynediad at waith teg. Mae'r daflen amgaeedig yn rhoi rhagor o wybodaeth a chefnidir i'r gwaith.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi rhywfaint o ystyriaeth i'm cais, gan fy mod yn credu y bydd gennych ddarlun ac arbenigedd gwerthfawr a all gefnogi'r agenda hon.

Cysylltwch â mi neu XX os hoffech drafod ymhellach.

Cofion gorau

xx

## Atodiad B: Ffurflen gydsynio

### Gwella Cyfranogiad mewn Gwaith Teg i gefnogi iechyd, llesiant a thegwch – Gwaith i greu darlun o'r sefyllfa

#### Ffurflen Gydsynio

Mae Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru yn creu darlun o'r sefyllfa gan aelodau a swyddogion sy'n cyfrannu at waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus neu Fargeinion Dinesig a Thwf mewn perthynas â chyflogaeth, adfywio a chyfranogi mewn gwaith teg.

Bydd yr ymchwil ansoddol hwn yn canfod darlun o'r sefyllfa i lywio'r gwaith o ddatblygu deunyddiau sy'n dylanwadu ar gyfranogiad rhanbarthol a lleol ac yn ei gefnogi er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith teg sy'n cefnogi iechyd, llesiant a thegwch.

Bydd y cyfweiliadau'n lled-strwythuredig ac ni fyddant yn para mwy na 45-60 munud.

#### Cydsyniad

	ticiwch
Rwy'n cydsynio i gymryd rhan yn y cyfweiliad	
Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i'r drafodaeth gael ei chofnodi ar MS Teams.	
Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweiliad	
Rwy'n deall y bydd fy ymatebion yn ddiennw ac mai dim ond Iechyd Cyhoeddus Cymru fydd yn defnyddio'r data i lywio'r gwaith o ddatblygu adnoddau i gefnogi partneriaethau lleol a rhanbarthol	

**Llofnod:**

**Enw mewn Llythrennau Bras:**

**Teitl Swydd:**

**Dyddiad:**

**Datganiad Diogelu Data:**

Mae unrhyw wybodaeth sydd gennym wedi'i diogelu rhag ei defnyddio gan unigolion a sefydliadau eraill o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a dim ond at ddibenion dadansoddi data y caiff ei defnyddio. Byddwn yn eich hysbysu'n uniongyrchol am unrhyw newidiadau i ddefnydd a diben y data.

Bydd recordiadau a thrawsgrifiadau MS Teams yn cael eu dinistrio erbyn 31 Ionawr 2022.

## Atodiad C: Amserlen Cyfweiliadau

### Gwella Cyfranogiad mewn Gwaith Teg i gefnogi iechyd, llesiant a thegwch – Gwaith i greu darlun o'r sefyllfa

#### Amserlen cyfweiliadau

##### 1. Cyflwyniad

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan yn y cyfweiliad hwn heddiw. Fy enw i yw ..., ac rwy'n Swyddog Ymchwil Iechyd y Cyhoedd yn yr Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd y cyfweiliad yn para rhwng 45 munud ac awr os yw hynny'n iawn? *[Cyfwelydd i wirio faint o amser sydd ganddynt – dywedwch wrthynt y bydd y cyfweiliad yn para rhwng 45 a 60 munud]*. Cyn i ni ddechrau hoffwn roi rhywfaint o gefndir a chyd-destun y gwaith i chi.

Yn gynharach eleni, cynhyrchodd yr Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach gyfres o adroddiadau yn manylu ar effeithiau'r Coronafeirws ar gyflogaeth yng Nghymru. Yn dilyn hyn, sefydlwyd Panel Arbenigol i gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu argymhellion i ddylanwadu ar weithredu ar draws y system, gan ganolbwyntio ar bartneriaethau lleol a rhanbarthol i wella mynediad at waith teg. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a dyheadau'r llywodraeth ar gyfer adferiad a thegwch iechyd.

Mae'r Panel Arbenigol yn ystyried y dirwedd bresennol a chyfleoedd yn y dyfodol o ran sut y gall partneriaethau lleol a rhanbarthol wella cyfranogi mewn gwaith teg. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, rydym yn chwilio am ddarlun o'r sefyllfa gan y rhai sy'n gweithio ar yr agenda hon i sicrhau y bydd unrhyw adnoddau a deunyddiau a gaiff eu cynhyrchu gennym yn addas i'r diben.

Rydym yn cyfweld amrywiaeth o bobl sy'n ymwneud â gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Bargeinion Dinesig / Twf o bob rhan o Gymru. Bydd y cyfweiliadau i gyd wedi'u cwblhau erbyn canol mis Tachwedd.

Byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi am:

- Eich rôl a sut rydych yn cyfrannu at waith ar yr economi ac adfywio gan gyfeirio'n benodol at gymryd rhan mewn gwaith teg
- Eich barn ar y berthynas rhwng gwaith teg ac iechyd
- Gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Bargeinion Dinesig / Twf mewn perthynas â chyfranogi mewn gwaith teg
- Ble rydych chi'n cael gwybodaeth am gyfranogi mewn gwaith teg ac os oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth.

Dim ond at ddibenion y prosiect hwn y byddwn yn defnyddio'r data a gesglir a bydd eich cyfraniadau'n ddiennw yn yr adroddiad terfynol. Bydd trawsgrifiadau cyfweiliadau yn cael eu llwytho o alwad Microsoft Teams ar ôl cwblhau'r cyfweiliad a bydd recordiadau o'r alwad yn cael eu dinistrio ar ôl llwytho'r trawsgrifiad. Byddwn yn cadw trawsgrifiadau'r cyfweiliad tan 31 Ionawr 2022. Ar ôl y cyfnod hwn byddant yn cael eu dinistrio. Byddwn yn rhannu'r adroddiad terfynol gyda chi.

- Oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn i ni ddechrau?

2. Cwblhewch y ffurflen gydsynio gyda'r cyfranogwr

3. Cwestiwn

	Elfen COM-B	Cwestiwn
1	-	Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich rôl yn y [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Bargaen Ddinesig / Bargaen Twf]?
2	-	Beth yn eich barn chi yw rôl [Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Bargaen Ddinesig / Bargaen Twf] wrth ddatblygu dyheadau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol?
3	Gallu	Beth mae'r term gwaith teg yn ei olygu i chi?  <i>[Dangoswch sleid gyda diffiniad a fydd yn arwain gweddill y cyfweiliad]</i>
4	Gallu	Beth yn eich barn chi yw'r berthynas rhwng gwaith teg ac iechyd a llesiant y boblogaeth?
5	Ysgogiad	Yn eich rôl fel X, pam mae cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yn bwysig i chi?  <i>[Os nad yw'r cyfranogwr yn siŵr sut i ateb cwestiwn, AWGRYM: e.e. beth am y cysylltiadau â'r economi]</i>

		<i>gynaliadwy / CMC / cynhyrchiant / adferiad gwyrdd / iechyd a llesiant y boblogaeth?</i>
6	-	<p>A oes gennych enghraifft yn eich ardal lle mae partneriaethau wedi cynyddu cyfranogi mewn gwaith teg?</p> <p><i>[Os na, AWGRYM ydych chi'n ymwybodol o unrhyw enghraifft yng Nghymru neu'r DU?]</i></p>
7	Cyfleoedd	<p>Mae cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yn faes cymhleth sy'n gofyn am gamau gweithredu aml-sector. Pa rwymedigaethau penodol sydd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (neu'r Fargen Ddinesig a'r Fargen Twf) yn y maes hwn?</p> <p><i>[AWGRYMIADAU: strwythurau, polisiau, cynlluniau]</i></p>
8	Cyfleoedd	<p>Pwy neu beth sy'n dylanwadu ar ba faes y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus [y Fargen Ddinesig neu Twf] yn canolbwyntio arnyn nhw mewn cysylltiad â chyfranogi mewn gwaith teg?</p> <p><i>[AWGRYMIADAU: rhanddeiliaid, cyllid, adnoddau]</i></p>
9	Cyfleoedd	<p>Beth yw'r blaenoriaethau presennol ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus [y Fargen Ddinesig neu'r Fargen Twf] mewn perthynas â chyfranogi mewn gwaith teg?</p>
10	Ymddygiad	<p>Pa fathau o wybodaeth rydych chi'n eu ceisio i helpu i lywio penderfyniadau ar wella cyfranogiad mewn gwaith teg?</p>
10	Ymddygiad	<p>O ble rydych chi'n cael y wybodaeth hon?</p> <p><i>[AWGRYMIADAU: gan swyddogion polisi, gwefannau, sesiynau briffio mewnol]</i></p>
12	Ymddygiad	<p>Sut rydych chi'n blaenoriaethu pa wybodaeth i edrych arni?</p>

		<i>[Os nad yw'r cyfranogwr yn siŵr sut i ateb y cwestiwn AWGRYM : e.e. ydych chi'n chwilio am wybodaeth eich hun neu ydych chi'n edrych ar wybodaeth a anfonir atoch gan gydweithwyr?]</i>
13	Gallu	A oes unrhyw fylchau mewn perthynas â gwybodaeth am gymryd rhan mewn gwaith teg a fyddai'n helpu i lywio penderfyniadau rhanbarthol / lleol?
14	-	Allwch chi feddwl am unrhyw ddogfennau, mewn cysylltiad â chyfranogi mewn gwaith teg, sydd wedi bod yn ddylanwadol wrth lunio trafodaethau o fewn y [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus / Y Fargen Ddinesig / Bargen Twf]?
		<i>[TREIDDIWCH: Pam roedden nhw'n ddylanwadol?]</i>
		<i>[AWGRYMIADAU: ffynhonnell gredadwy / defnyddio tystiolaeth / defnyddio straeon personol / dyluniad neu fformat y ddogfen]</i>
"15.	-	Yn eich barn chi, sut y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno'r achos orau, bod cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg o fudd i gynhyrchiant ac o fudd i iechyd a llesiant y boblogaeth?
16	-	A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu a ydych am ychwanegu unrhyw beth arall?

## Atodiad D: Model COM-B



Gallu	<p>Gallu corfforol – sgiliau, galluoedd neu hyfedreddau sy'n ofynnol drwy ymarfer</p> <p>Gallu seicolegol – gwybodaeth, cof, sylw, penderfyniad, prosesau, rheoleiddio ymddygiad</p>
Cyfleoedd	<p>Cyfle ffisegol – cynnwys ac adnoddau amgylcheddol</p> <p>Cyfle cymdeithasol – dylanwadau cymdeithasol fel pwysau cymdeithasol, normau, cydymffurfiaeth, cymhariaeth gymdeithasol</p>
Ysgogiad	<p>Cymhelliant myfyriol – credoau am alluoedd a chanlyniadau, rôl, hunaniaeth, bwriadau, nodau, optimistiaeth</p> <p>Cymhelliant awtomatig – emosiynau, atgyfnerthu, fel gwobrau, cymhellion, cosb</p>

R. West, S. Michie, 2020. A brief introduction to the COM-B Model of behaviour and the PRIME theory of motivation.



<https://www.semanticscholar.org/paper/A-brief-introduction-to-the-COM-B-Model-of-and-the-West%20Michie>

## Atodiad E: Diffiniad o Waith Teg

### Gwaith teg

- Gwaith Teg, yw pan fydd gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, pan fydd ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu gwneud cynnydd mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu.
- Nodweddion o fewn y diffiniad: Gwobr deg; llais y cyflogai a chynrychiolaeth gyfunol; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad, twf a dilyniant; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol, hawliau cyfreithiol a gaiff eu parchu ac y rhoddir grym sylweddol iddynt.
- Mae hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan annatod o bob un o'r chwe nodwedd.

Ffynhonnell: Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, 2019 <https://gov.wales/fair-work-wales>